



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad Archwilio Blynyddol 2017 – **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Blwyddyn archwilio: 2017

Dyddiad cyhoeddi: Ionawr 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 328A2018-19



Lluniwyd y ddogfen hon yn rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm fu'n paratoi'r adroddiad hwn ar fy rhan yn cynnwys Amanda Hughes, Andrew Doughton, Dave Thomas a Mike Usher.

Cynnwys

Adroddiad cryno	4
Adroddiad manwl	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	9
Adran 1: archwilio cyfrifon	10
Yr wyf wedi rhoi barn ddiamod 'gywir a theg' ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17 ynghyd â barn amodol ar reoleidd-dra. Rwyf hefyd wedi cyflwyno adroddiad sylweddol i gyd-fynd â'm barn fel archwilydd	10
Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau	12
Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol ac mae angen iddo ddatblygu ymagwedd fwy gweddnewidiol at gynlluniau arbed er mwyn lleihau ei ddiffyg cronus sy'n tyfu o hyd	12
Mae rhai prosesau llywodraethu yn cryfhau, ond mae angen i'r Bwrdd ddangos sut mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad a chyllid y sefydliad ar fyrder	14
Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrechu i wella gwasanaethau, ond mae ei drefniadau cyfredol yn cael eu hymestyn yn gynyddol	18
Atodiadau	
Atodiad 1 - adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf	26
Atodiad 2 - ffi archwilio	28
Atodiad 3 - risgiau o bwys wrth archwilio	29

Adroddiad cryno

Crynodeb

- 1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghanfyddiadau o'm gwaith archwilio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn ystod 2017. Cwblheais y gwaith hwnnw er mwyn cyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) o ran archwilio cyfrifon a threfniadau'r Bwrdd Iechyd i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
- 2 Yn fy ngwaith archwilio bûm hefyd yn canolbwyntio ar flaenoriaethau strategol a'r risgiau ariannol a gweithredol sylweddol sydd o flaen y Bwrdd Iechyd, ac sy'n berthnasol i'm cyfrifoldebau archwilio. Mae'r adroddiadau ar wahân a luniwyd gennyf yn ystod y flwyddyn yn cynnwys mwy o fanylion am agweddau penodol ar fy ngwaith archwilio. Bydd fy nhîm yn trafod yr adroddiadau hyn ac yn cytuno â swyddogion ar eu cywirdeb ffeithiol cyn iddynt gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Archwilio. Gellir gweld fy adroddiadau yn [Atodiad 1](#).
- 3 Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan fy nhîm gerbron y Bwrdd ar 1 Chwefror. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn derbyn yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 9 Chwefror. Anogaf y Bwrdd Iechyd yn gryf i drefnu i gyhoeddi'r adroddiad hwn ar raddfa ehangach. Ar ôl iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd, byddaf yn darparu'r adroddiad i'r cyhoedd ar [wefan Swyddfa Archwilio Cymru](#).
- 4 Gellir crynhoi fy ngwaith archwilio o dan y penawdau a ganlyn.

Adran 1: archwilio cyfrifon

- 5 Rhoddais farn ddiamed 'gywir a theg' ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17 ynghyd â barn amodol ynghylch rheoleidd-dra. Wrth wneud hynny, fodd bynnag, dygais un mater i sylw swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio, fel y nodir yn [Nangosyn 1](#) yr adroddiad hwn.
- 6 Yr wyf hefyd wedi casglu bod cyfrifon y Bwrdd Iechyd wedi'u paratoi mewn modd priodol ac yn gywir ym mhob ffordd berthnasol.
- 7 Yn rhan o'm gwaith, ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd a oedd yn berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon.
- 8 I gyd-fynd â'm barn archwilio, cyhoeddais adroddiad sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd i dynnu sylw at y ffaith nad yw wedi cyflawni dwy o'i ddyletswyddau ariannol.
- 9 Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i fantoli ei gyfrifon ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaeth i ben yn 2016-17. Nid oedd ychwaith wedi paratoi cynllun tymor canolig integredig cymeradwy ar gyfer y cyfnod 2016-17 hyd 2018-19. Gan hynny, nid oedd wedi bodloni'r naill na'r ail ddyletswydd statudol ariannol o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Mae [Adran 2](#) o'r adroddiad hwn yn cynnwys mwy o fanylion am y sefyllfa ariannol a'r trefniadau rheoli ariannol.

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

10 Yr wyf wedi archwilio trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio a rheoli arian, ei drefniadau llywodraethu a sicrwydd, a'i gynnydd o ran y materion i'w gwella a nodwyd yn Asesiad Strwythuredig y llynedd. Gwneuthum hyn er mwyn fy modloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio ei adnoddau. Yr wyf hefyd wedi cynnal adolygiadau Archwilio Perfformiad o feysydd darparu gwasanaeth penodol, gan gynnwys adolygu ystadau, gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau, trefniadau cynllunio i ryddhau cleifion, trefniadau comisynu gwasanaethau ambiwlans brys, a gwasanaethau dilynol i gleifion allanol. Nodir fy nghasgliadau'n seiliedig ar y gwaith hwn isod.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i brofi heriau ariannol sylweddol, ac mae angen iddo ddatblygu ymagwedd fwy gweddnewidiol at gynlluniau arbed er mwyn iddo ostwng ei ddiffyg cronus sy'n tyfu o hyd

- 11 Er bod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo'n rhesymol i gyflawni arbedion yn y gorffennol, nid yw ei ymagwedd at arbedion yn gwella cynaliadwyedd a sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad i raddau digonol. Dros y cyfnod rhwng 2012 a 2017, mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu targed o £193 miliwn mewn cynlluniau arbed, ac wedi sicrhau £192 miliwn. Ar gyfer 2017/18, roedd y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn yn cynnwys targed i sicrhau £35.4 miliwn o arbedion. Fodd bynnag, gwelwyd twf mewn costau annisgwyl wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi. Mewn ymateb i hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynlluniau arbed ychwanegol, ond hefyd wedi diwygio'r diffyg a ragwelodd yn ystod y flwyddyn o £26 miliwn i £36 miliwn. Erbyn hyn, £85.3 miliwn yw'r diffyg a ragwelir ar gyfer y cyfnod o dair blynedd a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018.
- 12 Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion yn cryfhau, ond mae ei ymagwedd wedi'i seilio'n bennaf ar gylch blynyddol, a bu'n canolbwyntio'n ormodol ar reoli costau yn ystod y flwyddyn, gan ddibynnu gormod ar arbedion byrdymor ac untro. Mae trefniadau atebolrwydd diwygiedig tîm y Swyddfa Rheoli Rhaglenni bellach yn ehangu ei ffocws, ac mae'r adran gyllid wedi rhoi cefnogaeth dda i wasanaethau yn y gorffennol. Fodd bynnag, er bod cefnogaeth rheoli newid, cynllunio'r gweithlu, caffael a gwybodeg ar gael ar gyfer cynlluniau arbed, o ofyn amdanynt yn benodol, nid oedd y gefnogaeth honno'n cael ei darparu mewn modd systematig i berchnogion cynlluniau arbed. Ar hyn o bryd, mae twf costau yn ystod y flwyddyn, sydd yn cynyddu'r ffocws ar ddatrysiadau byrdymor. hefyd yn effeithio ar ymagwedd y Bwrdd Iechyd at arbedion. Ceir cyfle i gynyddu'r ffocws ar drawsnewid gwasanaethau, cynyddu gwerth a chynhyrchiant, effeithlonrwydd a lleihau gwastraff. Mae'r Bwrdd Iechyd yn datblygu trefniadau er mwyn helpu i sicrhau gwelliannau ariannol mwy cynaliadwy, ac mae angen iddo fwrw ymlaen â'r rhain ynghynt.

- 13 Mae'r trefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar arbedion ariannol yn cryfhau yn sgil gwersi a ddysgwyd o'r blynyddoedd cynt, a'r risgiau ariannol sylweddol a wynebair'r Bwrdd yn y flwyddyn gyfredol. Mae dull y Bwrdd lechyd o fonitro'r arbedion sy'n cael eu cyflawni ar lefel reoli wedi'i sefydlu'n dda. Mae grŵp monitro'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni yn goruchwyllo cynnydd cynlluniau arbed arian ac yn derbyn gwybodaeth sy'n fwyfwy clir am gynlluniau arbed. Bu'r Bwrdd a phwyllgorau yn monitro arbedion yn ddigonol er mwyn cyflawni dyletswydd gyffredinol i oruchwyllo effaith arbedion ariannol, ac mae lefel yr wybodaeth fanwl sydd ei hangen er mwyn galluogi cefnogaeth a chraffu effeithiol yn gwella.

Mae rhai prosesau llywodraethu yn cryfhau, ond mae angen i'r Bwrdd ddangos sut mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad a chyllid y sefydliad ar fyrder

- 14 Caiff strwythurau llywodraethu eu gweinyddu'n dda, ond ceir cyfleoedd i wella ac ail-lunio cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad eto, ac i gryfhau trefniadau'r Bwrdd ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan ganolbwyntio mwy ar fforddiadwyedd. Wrth gyflawni fy ngwaith, gwelais weinyddiaeth, proses a rheolaeth dda yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau. Fodd bynnag, mae gofynion y Bwrdd lechyd a'i drefniadau llywodraethu yn newid. Yn benodol, nodais agenda drom y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Er fy mod yn cydnabod bod y Grŵp Adfer Ariannol wedi'i sefydlu ym mis Medi, efallai y bydd angen adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad. Dylai gwneud hynny sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu goruchwyllo ac ysgogi gwelliannau i'w sefyllfa ariannol a'i berfformiad, wedi i'r Grŵp Adfer Ariannol gael digon o amser i ymwreiddio yn nhrefniadau llywodraethu cyffredinol y Bwrdd. Bŵm hefyd yn ystyried y trefniadau monitro perfformiad a oedd ar waith o fewn y Bwrdd lechyd, a sylwais fod perfformiad wedi dirywio mewn sawl maes allweddol o fewn y fframwaith cyflawni cenedlaethol.
- 15 Gwelais hefyd:
- fod y trefniadau ar gyfer fframwaith sicrwydd y bwrdd yn mynd rhagddynt yn dda ac yn parhau i ddatblygu, gyda'r nod o'u cyflwyno'n fuan yn 2018;
 - bod rheolaethau mewnol allweddol yn cefnogi'r Bwrdd lechyd ar lefel uchel, a bod y rheolaethau hyn yn parhau i gryfhau, er bod cyfle i gryfhau archwiliadau clinigol;
 - bod y Bwrdd lechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r fenter twyll cenedlaethol er mwyn canfod achosion o dwyll a gordalu;
 - bod seiliau da wedi'u gosod ar gyfer rheoli gwybodaeth, a bod y Bwrdd lechyd wedi cydnabod gofynion newydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac yn buddsoddi adnoddau er mwyn bodloni'r Rheoliad hwnnw.
 - bod mân newidiadau diweddar i'r strwythur trefniadol wedi mynd rhagddynt fel y cynlluniwyd;
 - bod y Bwrdd lechyd yn ymdrin â'r materion a godwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd, ond mae angen gwneud mwy o waith ar hyn; ac

- at ei gilydd, bod y trefniadau ar gyfer monitro argymhellion a wneir gan archwilwyr mewnol ac allanol yn gwella.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrechu i wella gwasanaethau, ond mae ei drefniadau cyfredol yn cael eu hymestyn yn gynyddol

16 Yn fy rhaglen waith rwyf wedi cynnwys adolygiad o'r rheolaeth ar gyfarpar meddygol a gwaith dilynol yn gysylltiedig â'm hadolygiadau blaenorol o gontractau meddygon ymgynghorol. Dyma fy nghasgliadau:

- mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn parhau i ddatblygu meysydd pwysig sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau:
 - mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal rhaglen glir ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, ac mae ganddo hanes o lwyddo wrth sicrhau cynrychiolaeth eang o grwpiau cymunedol. Efallai y bydd angen i'r rhaglen ganolbwyntio'n benodol ar newidiadau i wasanaethau allweddol, ac y bydd angen cynnwys ymgynghori ffurfiol wrth i gynlluniau ddechrau datblygu.
 - mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ei strategaeth ar gyfer 'byw'n iach, cadw'n iach'. Yn ôl y Bwrdd Iechyd, y mae ar y trywydd iawn i gynhyrchu ei gynllun tymor canolig integredig ar gyfer 2018-21.
 - bu'r capasiti a'r gallu i reoli newid yn broblem i'r Bwrdd Iechyd ers tro, ac rwyf wedi nodi bod angen cryfhau ei drefniadau ar gyfer hyn ers 2014.
 - dengys mesurau perfformiad y gweithlu fod y Bwrdd Iechyd yn perfformio'n dda mewn rhai meysydd fel absenoldeb salwch. Fodd bynnag, mae pob rhan o'r sefydliad yn parhau i wynebu sawl her sylweddol o safbwynt y gweithlu, gan gynnwys recriwtio a'r ddibyniaeth ar weithlu dros dro.
- mae'r Bwrdd Iechyd yn gwella'r modd y mae'n rheoli ystadau, ond yn ei chael hi'n anodd dyrannu digon o adnoddau iddynt, ac nid oes ganddo ychwaith strategaeth gyffredinol i ymdrin â meysydd lle ceir lefel uchel o risg.
- mae gwaith beunyddiol y gwasanaeth radiolog wedi'i reoli'n dda, ond ceir risgiau i'r ddarpariaeth yn y dyfodol oherwydd galw cynyddol, heriau'n gysylltiedig â'r gweithlu, systemau TG gwael, cyfarpar sy'n heneiddio a chynllunio strategol gwan
- mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio mewn modd mwy strategol a chlir i wella gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau ond, mewn amgylchedd heriol, nid yw eto'n sicrhau gwasanaeth modern, cyson a chanddo ddigon o adnoddau a staff, sydd yn cyrraedd targedau perfformiad cenedlaethol.
- gall y Bwrdd Iechyd ddangos ei fwriad i wella llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion, ond mae hyder y staff a'r hyfforddiant ar eu cyfer yn dal i fod yn her, a'i berfformiad yn dal i fod yn wael.

- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ymdrin ag argymhellion o waith archwilio blaenorol, er bod camau pwysig yn parhau heb eu cyflawni mewn ambell faes allweddol.
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ymateb i argymhellion a wnaed yn fy adroddiad ar apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yn 2015, ond mae angen o hyd iddo wella'r modd y mae'n nodi risgiau a digwyddiadau clinigol, cyflymu'r broses o wella gwasanaethau a lleihau'r achosion o oedi sydd wedi cronni.

17 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Bwrdd Iechyd am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod yr archwiliad hwn.

Adroddiad manwl

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 18 Yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn i aelodau bwrdd y Bwrdd Iechyd, nodir prif ganfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed gennyf rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Tachwedd 2017.
- 19 Yr wyf yn cyflawni fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd mewn ymateb i'r gofynion a nodir yn Neddf 2004¹. Mae'r Ddeddf honno yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
- archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd i mi gan y Bwrdd Iechyd, a'u cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;
 - fy modloni fy hun fod y gwariant a'r incwm a drafodir yn y cyfrifon wedi'u defnyddio i'r dibenion a fwriadwyd, ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu rheoli; ac
 - fy modloni fy hun fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.
- 20 Mewn perthynas ag (c), cefais sicrwydd, neu fel arall, drwy ddefnyddio'r ffynonellau tystiolaeth canlynol:
- canlyniadau'r gwaith archwilio ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd;
 - gwaith a wnaed fel rhan o'm hasesiad strwythuredig diweddaraf o'r Bwrdd Iechyd, a archwiliai'r trefniadau ar gyfer rheoli ariannol, llywodraethu a sicrwydd;
 - archwiliadau o berfformiad a gynhaliwyd yn y Bwrdd Iechyd;
 - canlyniadau gwaith cyrff adolygu allanol eraill, lle bônt yn berthnasol i'm cyfrifoldebau; a
 - gwaith arall, megis ymarferion paru data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) ac ardystio hawliadau a ffurflenni.
- 21 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Bwrdd Iechyd eleni. Mae'r negeseuon sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn rhoi crynodeb o'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hyn, y ceir rhestr ohonynt yn [Atodiad 1](#).
- 22 Ystyrir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau canlynol:
- [Adran 1](#): archwilio cyfrifon
 - [Adran 2](#): trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau
- 23 Yn [Atodiad 2](#) dangosir yr amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd yn rhaid i mi ei chodi i dalu am y gost wirioneddol o gyflawni fy ngwaith yn y Bwrdd Iechyd, ochr yn ochr â'r ffi wreiddiol a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2017.
- 24 I gloi, nodir yn [Atodiad 3](#) y prif risgiau archwilio ariannol a amlygwyd yng Nghynllun Archwilio 2017, a'r modd yr ymdriniwyd â'r risgiau hynny drwy'r archwiliad.

¹ Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

Adran 1: archwilio cyfrifon

- 25 Yn yr adran hon o'r adroddiad ceir crynodeb o ganfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17. Mae'r datganiadau hyn yn galluogi'r sefydliad i ddangos ei berfformiad ariannol a nodi ei gostau gweithredu net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig a'i lif arian parod. Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sefydliad yn elfen hanfodol wrth ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei warchod mewn modd priodol.
- 26 Wrth ystyried datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd, mae'n ofynnol i mi roi fy marn ynglŷn â'r canlynol:
- a ydynt yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd a'i incwm a'i wariant ar gyfer y cyfnod dan sylw;
 - a ydynt wedi'u paratoi yn unol â gofynion statudol ac unrhyw ofynion cymwys eraill, ac yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol ar gyfer cyflwyno a datgelu cyfrifon;
 - a yw'r rhan honno sydd i'w harchwilio o'r Adroddiad ar Daliadau wedi'i pharatoi'n briodol;
 - a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd gyda'r datganiadau ariannol (yr adroddiad blynyddol) yn gyson â'r datganiadau; a
 - rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol.
- 27 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'r Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs).

Rwyf wedi rhoi barn ddiamed 'gywir a theg' ar ddatganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17 ynghyd â barn amodol ar reoleidd-dra. Rwyf hefyd wedi cyflwyno adroddiad sylweddol i gyd-fynd â'm barn fel archwilydd

Cafodd cyfrifon y Bwrdd Iechyd eu paratoi mewn modd priodol, ac maent yn gywir ym mhob ffordd berthnasol

- 28 Cafodd y datganiadau ariannol drafft eu llunio i'w harchwilio erbyn y dyddiad terfyn a gytunwyd, sef 28 Ebrill 2017, ac roedd y datganiadau hynny o safon dda. Er gwaethaf y terfyn amser heriol, canfûm fod yr wybodaeth a ddarparwyd yn y cyfrifon yn berthnasol, yn ddibynadwy, yn gymaradwy ac yn gyflawn ym mhob ffordd berthnasol.
- 29 Mae fy adroddiad sylweddol yn rhoi esboniad ynghylch y ddwy ddyletswydd ariannol statudol sy'n berthnasol o 2014-15, ac ynghylch perfformiad cronus y Bwrdd Iechyd yn erbyn y ddyletswyddau dros y tair blynedd o 2014-15 hyd 2016-17. Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r ddyletswydd ariannol gyntaf ² na'r ail ddyletswydd ³ ariannol.

²Y ddyletswydd ariannol gyntaf yw mantoli'r gyllideb dros y cyfnod o dair blynedd o 2014-15 hyd 2016-17.

³Yr ail ddyletswydd ariannol yw cael Cynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI), wedi'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru, ar gyfer y cyfnod 2016-17 hyd 2018-19.

- 30 Cyn rhoi fy marn archwilio ar y cyfrifon, y mae'n ofynnol i mi, yn unol ag ISA 260, adrodd ar faterion sy'n deillio o'm gwaith i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu. Cyflwynodd fy Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol adroddiad ar y materion hyn gerbron Pwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd ar 30 Mai 2017. Ceir crynodeb yn **Nangosyn 1** o'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

Dangosyn 1: Materion a nodwyd yn yr Adroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol

Mae'r tabl a ganlyn yn cynnwys crynodeb o'r prif faterion a nodwyd, a sylwadau arnynt.

Mater	Sylwadau'r archwilwyr
Gellid cryfhau'r broses ar gyfer nodi trafodion â phartion cysylltiedig	Roedd datgeliadau'r Aelodau Bwrdd yn anghyflawn, oherwydd diffyg eglurder ynghylch pa sefyllfaoedd y dylai aelodau eu datgelu ar eu ffurflen flynyddol. Oherwydd hynny, bu'n rhaid i'r tîm cyllid gyflawni gwaith ychwanegol er mwyn paratoi'r Datgeliadau Partion Cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn 24. Er fy mod yn fodlon bod y datgeliadau yn gyflawn, argymhellaf y dylid gwella'r broses er mwyn cipio'r holl wybodaeth berthnasol mewn un man.

- 31 Yn rhan o'm harchwiliad ariannol, cynhaliais hefyd adolygiad o'r ffurflen Cyfrifon Llywodraeth Gyfan. Deuthum i'r casgliad bod gwybodaeth gyfunol parti i gontract yn gyson â sefyllfa ariannol y Bwrdd Iechyd ar 31 Mawrth 2017, a bod y ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.
- 32 Paratowyd drafft datganiadau ariannol cronfeydd elusenol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2016-17 yn unol â'r amserlen a gytunwyd. Rhoddais farn ddiamod ar y datganiadau ariannol elusenol ar 6 Rhagfyr 2017.

Wrth gyflawni fy ngwaith, ni chefais hyd i unrhyw wendidau o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd

- 33 Bûm yn adolygu rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd a ystyriwyd yn berthnasol gennyf i'r archwiliad, i'm helpu i nodi, asesu ac ymateb i'r risgiau'n gysylltiedig â chamddatganiadau o bwys yn y cyfrifon. Fodd bynnag, ni roddais ystyriaeth iddynt er mwyn cyfleu barn ynghylch effeithiolrwydd wrth weithredu rheolaethau mewnol. Ni chefais hyd i unrhyw ddiffygion o bwys yn rheolaethau mewnol y Bwrdd Iechyd.

Adran 2: trefniadau ar gyfer sicrhau effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

- 34 Y mae gofyniad statudol arnaf i'm bodloni fy hun fod gan gyrff y GIG drefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau mewn modd effeithlon, effeithiol a darbodus. Cyflawnais amrywiaeth o waith archwilio perfformiad yn y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf i'm helpu i gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys:
- adolygu cynlluniau a chyflawniad y Bwrdd Iechyd o ran arbedion ariannol, a'r modd y cyfrannodd hynny at fantoli'r cyfrifon;
 - asesu pa mor effeithiol yw trefniadau llywodraethu a sicrwydd Bwrdd Iechyd drwy fy ngwaith asesu strwythuredig, gan gynnwys adolygiad o'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin â'r argymhellion a wnaed yn asesiad strwythuredig y llynedd;
 - asesu gwaith paru data yn rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI);
 - gwaith penodol ar ddefnydd o adnoddau yn y gwasanaethau radioleg, y gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau ac wrth gynllunio i ryddhau cleifion, ac adolygiad archwilio lleol o ystadau; ac
 - asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed mewn gwaith archwilio blaenorol ar reoli apwyntiadau dilynol i gleifion allanol, ac adolygu trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer olrhain cynnydd yn erbyn argymhellion archwilio allanol.
- 35 Yr wyf hefyd wedi cyflawni gwaith archwilio perfformiad sy'n edrych ar drefniadau llywodraethu'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Argyfwng, a hefyd y trefniadau cydweithredu rhwng timau iechyd cyhoeddus lleol ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- 36 Yn ogystal â'm rhaglen o waith archwilio, cynhaliodd fy nhîm hefyd adolygiad ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Asesai'r gwaith hwn y meysydd a nodwyd yn fy nghydadolygiadau blaenorol o drefniadau llywodraethu. Cyhoeddwyd [yr adroddiad](#) ym mis Mehefin 2017.
- 37 Ceir crynodeb o'r prif ganfyddiadau o'm rhaglen waith o dan y penawdau a ganlyn.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i brofi heriau ariannol sylweddol, ac mae angen iddo ddatblygu ymagwedd fwy gweddnewidiol at gynlluniau arbed er mwyn iddo ostwng ei ddiffyg cronus sy'n tyfu o hyd

- 38 Yn ogystal â gwneud sylwadau am sefyllfa ariannol gyffredinol y Bwrdd Iechyd, yn rhan o'm gwaith asesu strwythuredig yn 2017, ystyriais y camau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu cymryd i fantoli'r cyfrifon a chreu cynaliadwyedd ariannol ar gyfer y tymor hwy. Rwyf wedi asesu'r trefniadau corfforaethol ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion ariannol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad. Yr wyf hefyd wedi adolygu'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin ag argymhellion sy'n ymwneud ag agweddau ariannol mewn asesiadau strwythuredig blaenorol. Ceir crynodeb o'm canfyddiadau isod.

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi llwyddo'n rhesymol i gyflawni arbedion yn y gorffennol, nid yw ei ymagwedd at arbedion yn gwella cynaliadwyedd a sefyllfa ariannol gyffredinol y sefydliad i raddau digonol

39 Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gosod targedau arbed cymharol uchelgeisiol, ond cyflawnadwy. Dros y cyfnod rhwng 2012 a 2017, mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu targed o £193 miliwn mewn cynlluniau arbed, ac wedi sicrhau £192 miliwn. Ar gyfer 2017-18 yn benodol, roedd y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn yn cynnwys targed i arbed £35.4 miliwn ac yn rhagweld diffyg ar ddiwedd y flwyddyn o £26 miliwn. Wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, fodd bynnag, gwelwyd bod costau'n cynyddu. O ganlyniad i hynny, datblygodd y Bwrdd Iechyd gynlluniau arbed ychwanegol a newidiodd y diffyg yr oedd yn ei ragweld o £26 miliwn i £36 miliwn. Bellach, £85,3 miliwn yw'r diffyg a ragwelir dros y tair blynedd o 2015-2018. Gan hynny, ni fydd y Bwrdd Iechyd yn bodloni'r gofyniad i wario'n unol â'r dyraniad, fel y nodir yn Neddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014, ar gyfer y cyfnod 2015-2018. Oherwydd natur dreigl y gofynion a nodir yn y Ddeddf hon, mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn annhebygol iawn o adfer y sefyllfa sydd wedi cronni dros dair blynedd am ddwy flynedd arall o leiaf.

Mae trefniadau'r Bwrdd Iechyd ar gyfer cynllunio a chyflawni arbedion yn cryfhau, ond bu'n canolbwyntio'n ormodol yn ei ymagwedd ar reoli costau yn ystod y flwyddyn. Ceir cyfle i gynyddu'r ffocws ar drawsnewid gwasanaethau, cynyddu gwerth a chynhyrchiant, effeithlonrwydd a lleihau gwastraff

40 Cyflwynwyd amryw o newidiadau i'r arweinyddiaeth gorfforaethol a'r rheolaeth ar arbedion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dros y tair blynedd diwethaf, dibynnwyd ar ymgynghorwyr allanol, cafodd Cyfarwyddwr Gweddnewid dros dro ei benodi, ac fe gafwyd cefnogaeth gan Swyddfa Rheoli Rhaglenni a oedd yn brin o staff. Mae trefniadau atebolrwydd diwygiedig i'r tîm rheoli rhaglenni bellach yn ehangu ffocws y tîm, ac mae'r adran gyllid wedi rhoi cefnogaeth dda i wasanaethau yn y gorffennol. Fodd bynnag, gellid cryfhau'r gefnogaeth o du swyddogaethau galluogi eraill.

Deallaf fod y Bwrdd Iechyd yn dechrau ymdrin â'r materion hyn yn rhan o ymagweddau cynllunio arbedion 2018-19.

41 Mae awydd clir o fewn y Bwrdd Iechyd i goleddu egwyddorion gofal iechyd darbodus⁴ a gofal iechyd seiliedig ar werth⁵, ond nid ydynt ar hyn o bryd wedi'u hymwreiddio'n dda i gynlluniau gwasanaeth. Ar hyn o bryd, mae ymagwedd arbedion y Bwrdd Iechyd wedi'i seilio'n bennaf ar gylch blynyddol, gan ddibynnu'n ormodol ar arbedion byrdymor ac untro. Mae twf costau yn ystod y flwyddyn, sydd yn cynyddu'r ffocws ar ddatrysiadau byrdymor. hefyd yn effeithio ar yr ymagwedd honno.

⁴ Cyflawni gofal iechyd darbodus yng Nghymru

⁵ Cyd-ffederasiwn y GIG - Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth

Mae'r trefniadau ar gyfer monitro a chraffu ar arbedion ariannol yn cryfhau yn sgil gwersi a ddysgwyd o'r blynyddoedd cynt, a'r risgiau ariannol sylweddol a wynebai'r Bwrdd yn y flwyddyn gyfredol

- 42 Mae dull y Bwrdd lechyd o fonitro'r arbedion sy'n cael eu cyflawni ar lefel reoli wedi'i sefydlu'n dda. Mae grŵp monitro'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni yn goruchwyllo cynnydd cynlluniau arbed arian ac yn derbyn gwybodaeth sy'n fwyfwy clir am gynlluniau arbed. Bu gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau i fonitro perfformiad arbedion yn ddigonol i gyflawni dyletswydd gyffredinol i oruchwyllo arbedion ariannol. Hyd yn ddiweddar, fodd bynnag, nid oedd yr wybodaeth yn ddigon manwl i alluogi herio, cefnogaeth, uwchgyfeirio na chamau unioni effeithiol ar lefel y Bwrdd nac ar lefel pwyllgorau.

Mae'r Bwrdd lechyd wedi ymdrin â'r argymhelliad a wnaed yn gysylltiedig ag amseroldeb wrth gyflwyno adroddiadau ariannol gerbron y Bwrdd

- 43 Yn fy asesiad strwythuredig yn 2016, cyflwynais argymhelliad i wella amseroldeb gwybodaeth ariannol a adroddir gerbron y Bwrdd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd lechyd wedi gwella amseroldeb adroddiadau drwy roi diweddariadau ariannol ar lafar yn sesiynau pwyllgor y Bwrdd, a chynnal sesiynau briffio ychwanegol i'r bwrdd. Y mae hefyd yn cynnal cyfarfodydd y Bwrdd ynghynt yn y mis.

Mae rhai prosesau llywodraethu yn cryfhau, ond mae angen i'r Bwrdd ddangos sut mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad a chyllid y sefydliad ar fyrder

- 44 Yn rhan o'm gwaith ar yr asesiad strwythuredig bŵm yn asesu trefniadau llywodraethu a sicrwydd y Bwrdd lechyd. Roedd hyn yn cynnwys effeithiolrwydd y bwrdd a'i strwythurau llywodraethu, a'r cynnydd a wnaed wrth ymdrin â materion gwella ac argymhellion mewn asesiadau strwythuredig blaenorol. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

Mae strwythurau llywodraethu wedi'u gweinyddu'n dda, ond ceir cyfleoedd i wella ac ail-lunio'r cylchoedd gorchwyl eto ac i gryfhau trefniadau'r Bwrdd ar gyfer gwneud penderfyniadau, gyda mwy o ffocws ar fforddiadwyedd

- 45 Wrth adolygu'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn rhan o'm gwaith archwilio yn 2017, gwelais eu bod yn cael eu gweinyddu'n dda ac yn cynnal eu busnes mewn modd priodol. Mae hyn yn cynnwys cylch busnes cynlluniedig, agendâu amrywiol a thryloywder o ran adroddiadau i'r cyhoedd. Gwelaf fod rhyngberthynas a chydgyssylltu da o hyd rhwng pwyllgorau'r Bwrdd, a bod y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau a lechyd y Boblogaeth a'r Pwyllgor Archwilio yn gweithredu'n well. Fodd bynnag, er bod yr ymrwymiad i wella yn amlwg, mae angen i'r Bwrdd gryfhau ei drefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan ganolbwyntio mwy ar fforddiadwyedd. Yn rhan o hyn, mae angen sicrhau bod y penderfyniadau y mae'n eu gwneud ar y Bwrdd yn fforddiadwy ar hyn o bryd, a'u bod hefyd o gymorth i osod seiliau ariannol mwy cadarn i'r dyfodol.
- 46 Canfu fy nhim fod gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad agenda glir a bod yr aelodau annibynnol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol. Nodwyd hefyd fod arddull gwaith craffu wedi

cryfhau'n ddiweddar, a bod angen i hynny barhau. Fodd bynnag, mae'r pwyllgor yn wynebu gofynion sylweddol, o ystyried y cynnydd mewn gwaith craffu a'r ffocws sydd ei angen ar gyllid a pherfformiad o fewn y Bwrdd Iechyd. Yr wyf yn cydnabod bod y Grŵp Adfer Ariannol wedi'i sefydlu ym mis Medi, ond dengys tystiolaeth fod cylch gorchwyl cyfredol y pwyllgor yn rhy eang i'w alluogi i ganolbwyntio'n ddigonol ar rai o'r prif heriau sydd o flaen y Bwrdd Iechyd yn gysylltiedig â chyllid a pherfformiad. Efallai y bydd angen adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu goruchwyllo ac ysgogi gwelliannau i'w sefyllfa ariannol a'i berfformiad, wedi i'r Grŵp Adfer Ariannol gael digon o amser i ymwreiddio yn nhrefniadau llywodraethu cyffredinol y Bwrdd.

- 47 Yr wyf hefyd wedi amlygu rhai meysydd lle bydd angen i'r Bwrdd Iechyd naill ai gryfhau ei broses lywodraethu neu ganfod beth yw effaith ei drefniadau. Mae a wnelo hyn â chryfhau'r llif sicrwydd rhwng y Grŵp Ansawdd a Diogelwch a arweinir gan swyddogion a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau, ac adeiladu ar gynlluniau archwilio clinigol ac ymagweddau adrodd presennol.

Mae trefniadau fframwaith sicrwydd y Bwrdd yn datblygu'n dda, wedi'u cefnogi gan reolaethau mewnol allweddol sy'n cryfhau o hyd

- 48 Dros y flwyddyn ddiwethaf, cafwyd ffocws clir ar gryfhau trefniadau fframwaith sicrwydd y bwrdd. Mae hyn yn cynnwys pennu'r gofynion ar gyfer ymagwedd fframwaith sicrwydd y bwrdd, sy'n cynnwys:
- dogfen naratif ar gyfer fframwaith sicrwydd y bwrdd sy'n rhoi amlinelliad o'r trefniadau llywodraethu cyffredinol;
 - map sicrwydd a ddefnyddir i bennu gofynion sicrwydd a'r modd yr eir ati i gael sicrwydd; a
 - threfniadau rheoli risg corfforaethol.
- 49 Wrth gyflawni fy ngwaith rwyf hefyd wedi ystyried trefniadau lefel uchel ar gyfer rheolaeth fewnol. Yn rhan o hyn canfûm fod gan y Bwrdd Iechyd raglen reolaidd a chynhwysfawr o waith archwilio mewnol a digon o adnoddau i gyflawni'r rhaglen honno. Cafodd y gwaith hwn y llynedd ei grynhoi mewn adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, gan roi sicrwydd rhesymol ar gyfer 2016-17 ar y cyfan. Yn rhan o'r rhaglen archwilio fewnol, ystyriais hefyd waith y tîm archwilio cyfalaf. Mewn gwaith a gyflawnwyd gan y tîm yn ddiweddar ar brosiect cyfalaf graddfa fawr o fewn y Bwrdd Iechyd, nodwyd amrywiaeth o faterion y mae angen i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â hwy a lle mae angen gweithredu ar sail gwersi a ddysgwyd.
- 50 Ceir cynllun gwaith clir ar gyfer y gwasanaethau atal twyll lleol. Mae gan y tîm hwn ddigon o adnoddau, ac mae'n cynnwys amrywiaeth gytbwys o waith wedi'i wasgaru ar draws y meysydd a ganlyn: llywodraethu strategol, hysbysu a chynnwys, atal a gwrthannog a dwyn i gyfrif, fel sy'n ofynnol yn safonau Diogelu'r GIG.
- 51 Cyflwynir adroddiad chwarterol ar gydymffurfio gerbron y pwyllgor archwilio, sydd yn rhoi safbwynt da a sicrwydd ynghylch lefelau cydymffurfio â gweithdrefnau caffael, cyflogres, cyfrifon derbyniadwy a cholledion a thaliadau arbennig. Mae gan y Bwrdd Iechyd hefyd ystod o bolisiau a gweithdrefnau ar waith, ac y mae ar hyn o bryd yn gweithio i atgyfnerthu ei drefniadau rheolaeth polisi a'r systemau sy'n cefnogi hynny.

Mae seiliau da wedi'u gosod ar gyfer rheoli gwybodaeth, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod gofynion newydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol ac yn buddsoddi adnoddau er mwyn bodloni'r Rheoliad hwnnw

52 Mae Caldicott yn elfen allweddol o'r agenda Llywodraethu Gwybodaeth a Chyfrinachedd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod gwybodaeth sy'n galluogi adnabod unigolion wedi'i diogelu'n ddigonol⁶. Cwblhaodd y Bwrdd Iechyd hunanasesiad Cyfrinachedd Gwybodaeth Caldicott ym mis Ebrill 2017, ac ar hyn o bryd mae'n ystyried ei fod yn cydymffurfio ar gyfradd o 88%. Daw'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i rym ar 25 Mai 2018, gan gyflwyno newidiadau sylweddol i ofynion ac egwyddorion diogelu data. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod y newidiadau deddfwriaethol yn fuan, ac mae ganddo raglen bontio ar waith i asesu parodrwydd a gweithredu'r gofynion newydd o dan y GDPR. Er bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, mae sawl gweithgaredd yn dal heb eu cwblhau.

Er bod trefniadau monitro perfformiad ar waith o fewn y Bwrdd Iechyd, nid yw'r rhain wedi atal dirywiad ym mherfformiad sawl maes allweddol o fewn y fframwaith cyflawni cenedlaethol

53 Gosodir ystod o fesurau a thargedau cenedlaethol, a nodir yn Fframwaith Cyflawni GIG Cymru, i gyrrf iechyd yng Nghymru. Cânt eu dwyn i gyfrif am y mesurau a'r targedau hyn 2017-18⁷. Yr wyf wedi ystyried y cynnydd cyffredinol yn erbyn mesurau'r fframwaith cyflawni cenedlaethol, y mae'r Bwrdd Iechyd yn adrodd arnynt yn fisol, ac wedi tynnu sylw at y prif bryderon. Drwy fy ngwaith, gwelais fod perfformiad y Bwrdd Iechyd wedi gwella ar gyfer rhai mesurau, yn enwedig yn y meysydd perfformiad cenedlaethol a ganlyn: cadw'n iach, gofal diogel, gofal effeithiol a gofal unigol. Er gwaethaf y gwelliant wrth gymharu agweddau tebyg ar berfformiad dros y 12 mis diwethaf, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyrraedd llawer o dargedau cenedlaethol, ac mae'r perfformiad wedi dirywio mewn meysydd pwysig. Gofal amserol sydd yn achosi'r mwyaf o bryder, lle nad yw'r Bwrdd Iechyd ond yn cyflawni 5 o 18 o safonau cenedlaethol. Deallaf y bydd y Bwrdd Iechyd yn targedu rhywfaint o arian ychwanegol at wella amseroedd aros ar gyfer triniaethau dewisol.

Mae newidiadau diweddar i'r strwythur trefniadol wedi mynd rhagddynt fel y cynlluniwyd

54 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno man newidiadau i'w strwythur trefniadol yn ystod y flwyddyn. Mae'r newidiadau hynny'n dechrau cael effaith gadarnhaol. Roedd y newidiadau'n cynnwys symud y swyddogaeth cyfathrebu i swyddfa'r Prif Weithredwr, ac mae'r timau llywodraethu gwybodaeth a rheoli risg wedi symud i gylch gorchwyl Ysgrifennydd y Bwrdd. Yn ogystal â hyn, deallaf fod y cyfrifoldeb dros gwynion, pryderon a digwyddiadau hefyd wedi cael eu trosglwyddo i'r Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol dros y tri mis diwethaf. Canfûm drwy fy ngwaith y bu'r broses o drosglwyddo'r tîm yn llwyddiannus a bod yr ôl-groniad o ymatebion i bryderon yn lleihau. Fodd bynnag, bydd angen gwneud mwy o waith o hyn allan i atgyfnerthu prosesau dysgu gwersi.

⁶ **Llywodraethu Gwybodaeth a Caldicott**

⁷ **Fframwaith Cyflawni GIG Cymru**

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud defnydd effeithiol o'r fenter twyll cenedlaethol (NFI) er mwyn canfod achosion o dwyll a gordalu

- 55 Ymarfer paru data dwyflynyddol yw'r NFI sydd o gymorth i ganfod achosion o dwyll a gordalu. Gwneir hynny drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i ganfod hawliadau neu drafodion a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n ddull hynod effeithiol o ganfod ac atal twyll a gordaliadau, ac o helpu sefydliadau i atgyfnerthu eu trefniadau ar gyfer atal twyll a llygredd.
- 56 Cyflwynodd cyrff sy'n cymryd rhan yn y fenter ddata i ymarfer paru data cyfredol yr NFI ym mis Hydref 2016. Rhyddhawyd y canlyniadau i'r cyrff hynny ym mis Ionawr 2017.
- 57 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan yn yr NFI, ac mae'n orfodol iddo wneud hynny. Ym mis Ionawr 2017, derbyniodd y Bwrdd Iechyd ddata wedi'u paru drwy raglen we'r NFI. Mae'r data a gaiff eu paru yn amlygu anghysondebau a all fod o gymorth i ganfod gwallau ac achosion o dwyll wrth eu hadolygu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran adolygu'r data a gaiff eu paru. Ni chanfuwyd unrhyw achosion o dwyll yn sgil yr adolygiad a gynhaliwyd, ac mae hynny'n rhoi sicrwydd bod trefniadau atal twyll y Bwrdd Iechyd yn gweithio'n effeithiol. Drwy'r ymarfer, llwyddwyd i ganfod gwallau TAW gwerth £1,818 sydd wedi'i adennill, neu sydd yn cael ei adennill, gan ein cyflenwyr. Yn 2016-17, cyflwynodd yr NFI fodel newydd i baru data ar draws yr adran gyflogres, taliadau credydwyr a chofnodion Tŷ'r Cwmnïau. Gall yr ymarferion paru data hyn ein helpu i ganfod buddiannau nad yw'r staff wedi'u datgelu, ac achosion o dwyll wrth gaffael. Mae rhaglen we'r NFI yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi dechrau adolygu'r data a barwyd, ond nad oedd canlyniadau'r adolygiadau hynny wedi'u cofnodi yn y rhaglen ym mhob achos. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gwaith i adolygu'r data a barwyd wedi'i gwblhau, a bod yr holl ganlyniadau wedi'u cofnodi.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrin â'r materion a godwyd yn asesiad strwythuredig y llynedd, ond mae angen gwneud mwy o waith ar hyn. At ei gilydd, mae'r trefniadau ar gyfer monitro argymhellion a wneir gan archwilwyr mewnlol ac allanol yn gwella

- 58 Ystyriais faint o gynnydd a gafwyd yn y Bwrdd Iechyd yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn asesiad strwythuredig y llynedd. At ei gilydd, gwelais fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd, ond y bu'r cynnydd hwnnw'n araf mewn rhai meysydd.
- 59 Yn ogystal ag adolygu'r camau a gymerwyd i ymdrin ag argymhellion a chyfleoedd gwella o'm hasesiad strwythuredig yn 2016, ystyriais effeithiolrwydd trefniadau ehangach y Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i'm hargymhellion archwilio. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd yn cryfhau ei broses ar gyfer olrhain argymhellion Archwilio Mewnlol ac Allanol. Y mae wedi cyflwyno system newydd sy'n monitro cynnydd yn erbyn terfynau amser targed ac sy'n adrodd yn rheolaidd ar gynnydd argymhellion Archwilio Mewnlol ac Archwilio Allanol. Mae'r ymagwedd hon yn creu dealltwriaeth well o gynnydd yn erbyn argymhellion ac o sefyllfaoedd lle na chwblhawyd argymhellion o fewn y terfyn amser a nodwyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymdrechu i wella gwasanaethau, ond mae ei drefniadau cyfredol yn cael eu hymestyn yn gynyddol

Mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn parhau i ddatblygu meysydd pwysig sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau

60 Yn rhan o'm gwaith ar yr Aseiad Strwythuredig, adolygwyd y modd y rheolir ffactorau allweddol sy'n galluogi defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau. Ceir crynodeb o'm prif ganfyddiadau yn **Nangosyn 2**.

Dangosyn 2: crynodeb o'r prif ganfyddiadau yn gysylltiedig â'r defnydd o adnoddau

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi'r prif ganfyddiadau ynghylch ffactorau galluogi ar gyfer y defnydd o adnoddau o'r aseiad strwythuredig.

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Ymgysylltu â rhanddeiliaid	Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gynnal rhaglen glir ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, ac mae ganddo hanes o lwyddo wrth sicrhau cynrychiolaeth eang o grwpiau cymunedol. Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar newidiadau mawr i wasanaethau wrth baratoi i gyhoeddi ei strategaeth Byw'n Iachach, Cadw'n Iach na'r CTCI. Efallai y bydd angen iddo wneud hynny dros y blynyddoedd nesaf wrth i gynlluniau ddatblygu ymhellach.
Strategaeth a chynllunio	Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i ddatblygu ei strategaeth ar gyfer 'byw'n iach, cadw'n iach'. Mae'n ymgysylltu â phedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru ac yn datblygu aseidiadau llesiant, aseiad poblogaeth Gogledd Cymru, ac wedi datblygu ei aseiad ei hun o anghenion lleol. At ei gilydd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu ei strategaeth a'i gynlluniau. Fodd bynnag, bydd angen iddo sicrhau bod ei gynlluniau'n ddigon eglur er mwyn helpu i greu llwyfan effeithiol ar gyfer newid, a dyfodol sy'n ariannol gynaliadwy.
Y gallu i reoli newid	Bu'r capasiti a'r gallu i reoli newid yn broblem i'r Bwrdd Iechyd ers tro, ac rwyf wedi nodi bod angen cryfhau ei drefniadau ar gyfer hyn ers 2014. Rwyf wedi gweld llawer o newidiadau dros y cyfnod hwn, gan gynnwys Swyddfa Rheoli Rhaglenni, grwpiau adolygu Rhaglenni a grwpiau trawsnewid gwasanaethau, ond wrth i'r trefniadau ddatblygu, maent hefyd wedi troi'n fwy dyrus, gyda strwythurau a meysydd ffocws amrywiol.

Mater	Crynodeb o'r canfyddiadau
Cynllunio'r gweithlu	<p>Dengys mesurau perfformiad Y Gweithlu fod y Bwrdd lechyd yn perfformio'n dda mewn rhai meysydd fel absenoldeb salwch, a'i fod yn cymharu'n dda â chyrrff eraill yng Nghymru. Mae mentrau fel 'camu i waith' a rhaglenni Prosiect SEARCH o fewn y Bwrdd lechyd yn cynnig mynediad at brofiad gwaith i bobl yn y gymuned sy'n wynebu anfantais. Yn ogystal â hyn, cefnogodd a chymeradwyodd y Bwrdd y strategaeth ymgysylltu â staff ym mis Ionawr 2017.</p> <p>Fodd bynnag, ceir sawl her sylweddol o hyd yn gysylltiedig â'r gweithlu. Ers 2011, mae'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth wedi gwaethygu, gyda chostau staff asiantaeth yn cyrraedd £45 miliwn yn 2016-17. Mae recriwtio hefyd yn parhau i fod yn gryn her, yn enwedig mewn meysydd arbenigol lle mae'n anodd llenwi swyddi. Rhoddais ystyried hefyd i'r capasiti rheoli cyffredinol. Sylwais:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y gall achosion godi lle bydd Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cael eu tynnu i mewn i faterion rheoli ymarferol sydd, ar raddfa ehangach, yn arwydd bod angen ehangu a dwysau arbenigedd uwch reolwyr o dan lefel y cyfarwyddwyr gweithredol. • mae ymgysylltu clinigol ac arweinyddiaeth glinigol hefyd wedi achosi cryn broblemau i'r Bwrdd lechyd. a • natur fregus y strwythur uwch reoli yn yr is-adran lechyd Meddwl.
TGCh a'r defnydd o dechnoleg	<p>Mae'r Bwrdd lechyd wedi datblygu ei Gynllun Gweithredol Gwybodeg ar gyfer 2017-18 sy'n pennu'r amcanion a'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Bu cyfyngiadau ar gyllid adran wybodeg y Bwrdd lechyd yn y gorffennol, ac mae'r adran yn ceisio sicrhau cydbwysedd wrth wasgaru ei adnoddau ar draws gofynion gweithredol, mentrau newydd, systemau a datblygiadau. Gallai'r cyfyngiadau amharu ar allu'r Bwrdd lechyd i ddefnyddio technoleg er mwyn cefnogi a galluogi arbedion ac effeithlonni mewn meysydd eraill.</p>
Ystadau ac asedau	<p>Mae fy nhîm wedi cynnal adolygiad penodol o'r trefniadau ar gyfer rheoli ystadau. Ceir crynodeb o'm canfyddiadau isod.</p>

Mae'r Bwrdd lechyd yn gwella'r modd y mae'n rheoli ystadau, ond yn ei chael hi'n anodd dyrannu digon o adnoddau iddynt, ac nid oes ganddo ychwaith strategaeth gyffredinol i ymdrin â meysydd lle ceir lefel uchel o risg

61 Canfu fy nhîm nad oes gan y Bwrdd lechyd strategaeth ystadau ar hyn o bryd. Mae gwaith i ddatblygu'r strategaeth yn ddibynnol ar gymeradwyo strategaeth 'Byw'n Iachach, Cadw'n Iach' y Bwrdd lechyd, a bydd yn cael ei pharatoi yn ystod 2018. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'r ffaith nad oes strategaeth yn ei gwneud hi'n anos i'r Bwrdd lechyd wneud penderfyniadau ynghylch cyfalaf, neu roi'r penderfyniadau hynny yn nhrefn blaenoriaeth. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau ynghylch gwaredu asedau a chymeradwyo prosiectau cyfalaf newydd. Tua £420 miliwn yw prisiad portffolio ystadau cyfredol y Bwrdd lechyd, ac mae bron 60% o'r

ystadau hynny dros 30 oed. Yn 2015-16, cyfrifwyd mai £41.5 miliwn⁸, wedi'i addasu yn ôl risg, oedd pris y gwaith cynnal a chadw a oedd wedi ôl-gronni o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae bron £21 miliwn o'r gwaith hwn sydd wedi ôl-gronni yn y categori risg uchel, sef y gyfran uchaf yng Nghymru. Dylai'r gwaith adeiladu a gwblhawyd yn ddiweddar a'r gwaith ailddatblygu sydd ar y gweill fod o gymorth i leihau peth o'r ôl-gronniad, ond mae'n dal i fod yn gryn her o ystyried proffil oedran yr ystâd. Bydd is-grŵp rhaglen gyfalaf y Bwrdd Iechyd yn ystyried pob un o'r cynigion cyfalaf dewisol ar sail amryw o ffactorau, gan gynnwys risg, cydymffurfiaeth statudol, cydbwysedd ariannol a chysondeb â'r cynllun gweithredol. Er i'r grŵp hwn ddyrannu £14.4 miliwn ar gyfer cynlluniau yn 2017-18, roedd y ceisiadau a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol yn creu cyfanswm o fwy na £30 miliwn.

- 62 Dros y cyfnod 2013-14 hyd 2015-16, mae data dangosfwrdd ystadau GIG Cymru yn dangos bod perfformiad y Bwrdd Iechyd o ran ystadau wedi dirywio, yn enwedig o ran cyflwr ffisegol a chydymffurfiaeth â gofynion statudol a gofynion diogelwch. Ar ben hynny, ni chyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd unrhyw dargedau cenedlaethol yn gysylltiedig ag ystadau yn 2015-16. Efallai mai dyma pam bod cyfran mor fawr o'r gwaith yn waith ymatebol yn hytrach na gwaith wedi'i gynllunio. Ar hyn o bryd, nid yw'r adnoddau sydd ar gael yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gadw'n wastad â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'i bortffolio o ystadau sy'n heneiddio, na rheoli'r risgiau hynny'n effeithiol.
- 63 Yn ystod 2015, ad-drefnodd y Bwrdd Iechyd rai is-adrannau, a oedd yn cynnwys cyfuno swyddogaethau'r ystadau a'r cyfleusterau mewn un is-adran. Un o'r effeithiau cadarnhaol a gafwyd yn sgil hyn oedd dyrannu cyllid yn well rhwng swyddogaethau'r ystadau a chyfleusterau. Yn ôl y staff, mae'r ad-drefnu wedi cael effaith gadarnhaol, gan eglurhau llinellau atebolrwydd.

Mae gwaith beunyddiol y gwasanaeth radioleg wedi'i reoli'n dda, ond ceir risgiau i'r ddarpariaeth yn y dyfodol oherwydd galw cynyddol, heriau'n gysylltiedig â'r gweithlu, systemau TG gwael, cyfarpar sy'n heneiddio a chynllunio strategol gwan

- 64 Dylai'r Bwrdd Iechyd gael cynllun strategol clir sy'n nodi sut y bydd yn bodloni'r galw am wasanaethau radioleg yn bresennol ac yn y dyfodol. Mae cynllun blaenorol y Bwrdd Iechyd bellach wedi dyddio, ac er y cafwyd gwaith i gyflwyno cynllun pum mlynedd, ni chwblhawyd y cynllun hwnnw. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i greu cynlluniau gweithredol cadarn ar gyfer y gwasanaeth.
- 65 Yn sgil rôl gynyddol radioleg mewn gofal clinigol, mae'r galw am archwiliadau radiolegol yn tyfu, yn enwedig y galw am sganiau CT ac MRI. Ar y cyfan, fodd bynnag, mae'r galw am wasanaethau radiolegol y tu hwnt i reolaeth yr adran leol, ac nid yw meysydd arbenigol eraill bob amser yn rhoi rhybudd o'r newidiadau sy'n effeithio ar y galw am radioleg. Mewn perthynas â'i weithlu, mae'r gyfran o radiolegwyr dros eu 60 oed yn uwch o fewn y Bwrdd Iechyd nag yng ngweddill Cymru. Gallai hyn gynyddu'r trosiant staff yn y dyfodol, mewn amgylchedd lle mae'n anodd llenwi swyddi.

⁸NHS Estates, **A risk-based methodology for establishing and managing backlog Gateway reference 4102**, TSO, 2004.

- 66 Ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, canfûm mai ychydig o gleifion sydd yn aros yn hwy nag wyth wythnos am apwyntiadau radioleg. Mae amseroedd adroddiadau radiolegol yn dda ar y cyfan, ac mae rhoi adroddiadau y tu allan i oriau ar gontract allanol wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i leihau'r pwysau ar adroddiadau. Roedd y mynediad at wasanaethau radioleg yn agored ac yn dda ar y cyfan mewn perthynas â gofal heb ei drefnu. Fodd bynnag, yr oedd mwy o gyfyngu ar fynediad at wasanaethau radioleg brys y tu allan i oriau gwaith arferol.
- 67 Ceir llai o sganwyr delweddu atseinol magnetig (MRI) o gymharu â Chymru; gweithredir y sganwyr tomograffi cyfrifiadurol (CT) a'r sganwyr uwchsain am gyfnodau byrrach, a chyfyngir ar oriau sganio ar benwythnosau. Ar ben hynny, mae peth o'r offer yn cyrraedd diwedd ei oes, ond nid oes cyllideb i brynu offer newydd yn eu lle.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynllunio mewn modd mwy strategol a chilir i wella gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau ond, mewn amgylchedd heriol, nid yw eto'n sicrhau gwasanaeth modern, cyson a chanddo ddigon o adnoddau a staff, sydd yn cyrraedd targedau perfformiad cenedlaethol

- 68 Nod adolygiad 2017 oedd canfod a yw'r Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod gan gleifion fynediad at wasanaethau meddyg teulu cadarn ac effeithiol y tu allan i oriau. Canfûm fod y Bwrdd Iechyd yn gweithio i wella'r modd y mae'n cynllunio gwasanaethau, ond ni cheir cofnod o'i strategaeth ar gyfer hynny. Ers cyflawni fy ngwaith maes, rhoddwyd y cyfrifoldeb o ddatblygu ymagwedd strategol i 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gwasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau' o fewn y Bwrdd Iechyd. Er nad oes unrhyw strategaeth benodol ar gyfer yr holl wasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau, ceir cynllun gweithredu sydd wedi esblygu o'r camau gweithredu gwreiddiol yn adroddiad 2015.
- 69 Ceir heriau'n gysylltiedig â'r modd y rheolir is-adrannau'r Bwrdd Iechyd. Roedd y staff y bu fy nhîm yn siarad â hwy yn ystod fy adolygiad yn deall strwythur arweinyddol y Weithrediaeth ac atebolrwydd gweithredol. Fodd bynnag, dywedodd staff hefyd nad yw'r llinellau adrodd clinigol proffesiynol yn eglur ar hyn o bryd. Mae problemau hirdymor yn gysylltiedig â'r gweithlu yn parhau i amharu ar gynaliadwyedd y gwasanaeth. Mae gan y Bwrdd Iechyd y gronfa leiaf o feddygon teulu fesul 1,000 o'r boblogaeth o'i gymharu â byrddau iechyd eraill yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth wedi gweithredu i ymdrin â hyn.
- 70 Rhwng 2009-10 a 2015-16, cafwyd gostyngiad o 14% mewn termau real yng ngwariant y Bwrdd Iechyd ar wasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau. Bu'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd ddarparu £0.05 miliwn o gymhorthdal ar gyfer ei wasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau yn 2015-16. Roedd hyn yn gyfystyr â'r ganran leiaf o gymhorthdal wedi'i thalu gan fwrdd iechyd fel canran o'i ddyraniad tybiannol, sef 0.7% a oedd yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 16.9%. Er mwyn i'r Bwrdd Iechyd ddatblygu gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau cynaliadwy, bydd angen iddo fabwysiadu ymagwedd briodol at bennu cyllidebau wedi'i halinio â'r strategaeth gofal heb ei drefnu.
- 71 Mae angen i'r Bwrdd Iechyd gryfhau perfformiad yn erbyn targedau cenedlaethol ac mae ei i sicrhau'r galw yn briodol. Nododd fy nhîm:
- y gallai'r Bwrdd Iechyd wneud mwy i gynorthwyo cleifion i gael mynediad at wasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau, ac i gyfeirio cleifion at y gwasanaeth cywir;
 - bod cyfle i gryfhau'r gwasanaethau ateb galwadau; a

- bod angen gwella perfformiad y gwasanaeth, gan gynnwys gwasanaethau 'gweld a thrin' a 'clywed a thrin'.

Gall y Bwrdd Iechyd ddangos ei friad i wella llif cleifion a chynllunio i ryddhau cleifion, ond mae hyder y staff a'r hyfforddiant ar eu cyfer yn dal i fod yn her, a'i berfformiad yn dal i fod yn wael

- 72 Wrth gyflawni fy ngwaith, gwelais fod y Bwrdd Iechyd yn cymryd sawl cam i gyflawni ei weledigaeth ar gyfer gwella gwaith cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion. Yn benodol, nododd fy nhîm fod cynlluniau fel Cynllun Gweithredol Blyneddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2017-18 a'i gynllun tymhorol yn cyfleu bwriad clir i atgyfnerthu cynllunio i ryddhau cleifion yn rhan o ymagwedd i wella llif cleifion. Yn ddiweddar, datblygodd y Bwrdd Iechyd lwybrau sy'n seiliedig ar arfer da, ond mae amryw o elfennau a allai gefnogi cynllunio i ryddhau cleifion wedi'u hepgor, gan gynnwys datblygu safonau ar gyfer amseroedd ymateb ac ansawdd, a phrosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth glinigol.
- 73 Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu tri thîm rhyddhau, ond nid yw'r rhain ond ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac mae eu dull o ymarfer yn amrywio rhwng gwahanol ysbysai. Er bod pob ysbysu cyffredinol dosbarth yn gweithredu lolfar rhyddhau, mae amseroedd gweithredu, capasiti cyffredinol a chynhyrchiant y lolfeydd hynny'n amrywio. Gwelodd fy nhîm hefyd hanes o hyfforddiant gwael i'r staff, a diffyg cysondeb o ran ymwybyddiaeth y staff o bolisïau, llwybrau a gwasanaethau cymunedol, a'u hyder ynddynt. Mae'r Bwrdd Iechyd bellach yn cymryd camau i fynd i'r afael â diffyg mynediad at hyfforddiant ar gynllunio i ryddhau cleifion, a chydymffurfiaeth â'r gofynion ar gyfer hynny. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd camau i gynyddu ei ddealltwriaeth o sawl ffactor mewnlod ac allanol sy'n ei atal rhag rhyddhau cleifion yn brydlon, a'i ymateb i'r ffactorau hynny. Fodd bynnag, nid oes gan rai aelodau o staff yr hyder i gynnal sgysiau anodd â'r claf ynghylch rhyddhau.
- 74 Mae'r trefniadau ar gyfer monitro, adrodd a chraffu ar gynlluniau i ryddhau cleifion yn effeithiol ar y cyfan. Ceir llinellau atebolrwydd clir ar gyfer monitro a gwella prosesau cynllunio i ryddhau cleifion a llif cleifion, a threfniadau rheolaidd i graffu ar berfformiad. Fodd bynnag, er bod canran y cleifion sy'n wynebu oedi hir cyn eu rhyddhau wedi gwella rhywfaint yn ddiweddar, mae perfformiad wrth gynllunio i ryddhau yn dal i fod yn gymharol wael.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ymdrin ag argymhellion o waith archwilio blaenorol, er bod camau pwysig yn parhau heb eu cyflawni mewn ambell faes allweddol

- 75 Yn ogystal ag adolygu effeithiolrwydd trefniadau'r Bwrdd Iechyd i reoli ac ymateb i argymhellion a wnaed yn rhan o'm gwaith archwilio, fel y trafodwyd ym **mharagraffau 60 i 61**, canfûm y canlynol drwy fy ngwaith:
- mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb i'm hargymhelliad yn asesiad strwythuredig 2016 i barhau i ganolbwyntio ar ddatblygu strategaethau er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni ei raddfeydd amser heriol ei hun. Bydd yr argymhelliad hwn yn parhau'n weithredol nes i'r Bwrdd gymeradwyo ei strategaeth a'i gynlluniau corfforaethol.
 - mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i addasu ei drefniadau rheoli newid mewn ymateb i'm hargymhelliad yn asesiad strwythuredig 2015, ond nid yw'r rhain wedi'u llunio'n ddigonol ar hyn o bryd i fodloni gofynion rheoli newid y sefydliad.

76 Yn ystod y 12 mis diwethaf, rwyf hefyd wedi cyflawni gwaith archwilio dilynol manwl er mwyn asesu cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth ymdrin â phryderon ac argymhellion a godai o waith archwilio blaenorol mewn meysydd cyflenwi gwasanaeth penodol. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r **gwaith dilynol hwn yn Nangosyn 3**.

Dangosyn 3: cynnydd o ran gweithredu argymhellion archwilio mewn meysydd gwasanaeth penodol

Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o'r prif ganfyddiadau o'm hadolygiad o gynnydd yn gysylltiedig ag apwyntiadau dilynol i gleifion allanol

Maes gwaith dilynol	Casgliadau a chanfyddiadau archwilio allweddol
Diweddariad ar gynnydd o ran apwyntiadau dilynol i gleifion allanol	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd wrth ymateb i argymhellion a wnaed yn yr adroddiad a gyhoeddais yn 2015, ond mae angen o hyd iddo wella'r modd y mae'n nodi risgiau a digwyddiadau clinigol, cyflymu'r broses o wella gwasanaethau a lleihau'r achosion o oedi sydd wedi cronni. Mae'r Bwrdd Iechyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • yn cyflawni ei ofyniad i adrodd ar ddata apwyntiadau dilynol i gleifion allanol yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru, er na chyflwynodd ddata am gyfnod byr oherwydd problemau'n gysylltiedig â'r system. • yn parhau i ehangu'r modd y mae'n dadansoddi ac yn rheoli gwybodaeth am apwyntiadau dilynol cleifion allanol, ac er bod hyn yn sail ar gyfer gwelliannau gweithredol, nid yw eto'n cael ei defnyddio mewn modd cyson i leihau amrywiadau clinigol amhriodol wrth ymarfer. • yn meddu ar ddealltwriaeth well o feysydd arbenigol clinigol sy'n cynnwys y risg fwyaf o niwed na ellir ei wrthdroi os ceir oedi cyn cynnal apwyntiadau dilynol, ond nid yw'r ddealltwriaeth hon ar lefel cyflwr clinigol. • wedi canolbwyntio ar achosion o oedi sydd wedi ôl-gronni, ond mae angen iddo foderneiddio gwasanaethau o hyd er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'r dyfodol. Bydd hyn yn ofyniad parhaus, ac mae'n digwydd mewn ambell faes arbenigol, ond mae angen gweithredu ynghynt ac ar raddfa ehangach, ac mae angen cynnwys clinigwyr a gwasanaethau fel ysgogwyr.

Mae trefniadau comisiynu cydweithredol wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig o ran y gwasanaethau ambiwlans argyfwng yng Nghymru; wrth i'r trefniadau aeddfedu, fodd bynnag, mae angen mwy o ymrwymiad gan rai partneriaid

77 Yn fy adolygiad o drefniadau Cymru gyfan ar gyfer comisiynu gwasanaethau ambiwlans argyfwng canfûm fod y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Argyfwng (PGAA) wedi helpu i ysgogi rhai newidiadau pwysig, fel datblygu model ⁹CAREMORE® Fodd bynnag, nid yw'r strwythurau na'r rolau i sicrhau atebolrwydd yn glir. Gwelais fod lle i egluro rolau'r PGAA, Llywodraeth Cymru a Phrif Gomisiynydd y Gwasanaethau Ambiwllans mewn perthynas â pherfformiad a chyllid y gwasanaeth ambiwlans argyfwng, a moderneiddio'r gwasanaeth. Ac er bod ffurfio PGAA wedi cefnogi

⁹Dull comisiynu wedi'i greu yng Nghymru yw model CAREMORE®. Mae ei nod masnach cofrestredig yn eiddo i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar ran GIG Cymru.

perchnogaeth ar wasanaethau ambiwlans argyfwng ar raddfa Cymru gyfan, nododd fy nhîm fod angen i'r PGAA wneud mwy i hyrwyddo gweddnewid gwasanaethau. Ar ben hynny, nid yw'r strwythur is-grwpiau, sydd yn sail i'r PGAA, yn ddigon eglur na'i ddibenion yn ddigon clir. Mae hynny'n amharu ar bresenoldeb staff byrddau iechyd a gallu'r is-grwpiau i gyfrannu mewn modd ystyrlon.

- 78 Mae partneriaid yn cefnogi'r model comisiynu ond mae cyflymder y byrddau iechyd wrth ysgogi'r newidiadau angenrheidiol i'w alluogi yn amrywio, ac nid yw'r model yn cynnwys ystyriaeth o weithgarwch rhanbarthol neu drawsffiniol. Canfûm yn fy ngwaith fod Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwllans Cymru (WAST) a byrddau iechyd ar y cyfan yn barod i gydweithio er mwyn gwella gwasanaethau ambiwlans. Er hynny, mae lefel y berchnogaeth ar berfformiad ambiwlansys argyfwng a moderneiddio llwybrau mewn byrddau iechyd yn amrywio, gyda'r prif bwyslais ar gamau olaf y llwybr ambiwlans, fel trosglwyddo o'r ambiwlans. Adroddais fod WAST yn ymateb mewn modd priodol i gytundebau lunnir gan y PGAA. Serch hynny, mae'r graddau y mae byrddau iechyd yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn CAREMORE® yn amrywio, ynghyd â'u dealltwriaeth o'r gofynion hynny.
- 79 Canfûm drwy fy ngwaith fod trefniadau comisiynu yn sail i rai gwelliannau i'r gwasanaethau ambiwlans argyfwng. Mae cyflwyno'r model newydd ar gyfer ymateb clinigol yn cynorthwyo partneriaid i gyrraedd targedau perfformiad Llywodraeth Cymru, ac mae potensial am welliannau pellach o ran perfformiad yn sgil mentrau eraill y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Mae newidiadau a gynllunnir i wasanaethau a gwaith monitro perfformiad partneriaid bellach yn fwyfwy cyson â'r Llwybr Gofal Cleifion Ambiwllans (y cyfeirir ato fel y model pum cam). Ond mae angen mwy o gysondeb ar draws y byrddau iechyd, ac mae'n rhy fuan i ddweud a yw hyn yn cael effaith. Ceir cyfres llawer gwell o fesurau, sydd hefyd yn ehangach, ac sy'n canolbwyntio ar weithgarwch a pherfformiad drwy'r Dangosyddion Ansawdd Ambiwllans. Fodd bynnag, nid yw partneriaid yn gwneud digon eto i ddeall canlyniadau a phrofiadau cleifion yn llawn wrth iddynt dderbyn gofal ambiwlans argyfwng.

Nid yw trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol yn gweithio mor effeithiol ag y dylent

- 80 Wrth adolygu trefniadau cydweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol, canfûm fod cydweithrediad effeithiol mewn perthynas â gwaith gwella iechyd yn ddibynol ar arweinyddiaeth gydsyniol, nad yw bob amser i'w gweld yn amlwg. Yn y system iechyd cyhoeddus gyffredinol, mae ystod eang o bobl a sefydliadau'n cyfrannu at ddiogelu a gwella iechyd a llesiant, ac at leihau anghydraddoldeb iechyd yng Nghymru. Nid yw yr un sefydliad yn llwyr gyfrifol am sicrhau gwelliannau yn iechyd a llesiant y boblogaeth, ond ystyrir bod sefydliadau'n llwyddo yn hyn o beth os ydynt yn cydweithio'n effeithiol.
- 81 Efallai nad yw'n ddymunol pennu un arweinydd system, mae angen mwy o eglurder ynghylch rolau perthynol y gwahanol randdeiliaid o fewn y system. Drwy fy ngwaith, gwelais ddiffyg deialog ystyrlon rhwng Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (yr Ymddiriedolaeth), timau iechyd cyhoeddus lleol a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus y Byrddau Iechyd ynghylch rolau a chyfrifoldebau perthynol, a fframwaith cytunedig sy'n trafod pa waith a gyflawnir orau ar y cyd.

- 82 Ni cheir unrhyw drefniadau effeithiol ar hyn o bryd i sicrhau bod yr adnoddau a ddyrennir i dimau iechyd cyhoeddus lleol yn cynnig gwerth am arian. Ni chynhelir cyfarfodydd rhwng yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus i drafod y defnydd o adnoddau er mwyn gwella iechyd a llesiant, a thrafod a ydynt yn creu'r budd a fwriadwyd. Drwy fy ngwaith hefyd gwelais ddiffyg dulliau cadarn o ddyrannu neu newid adnoddau timau iechyd cyhoeddus lleol. Yn lle hynny, cynhelir trafodaethau ad hoc wrth i swyddi gwag ddod i'r amlwg.
- 83 Wrth gyflawni fy ngwaith, gwelais fod trefniadau wedi'u sefydlu i helpu staff sy'n gweithio ar draws timau lleol yn broffesiynol, ond mae angen mwy o eglurder ynghylch sut y caiff hyn ei ddefnyddio i ddangos cymhwysedd proffesiynol ac i gamu ymlaen mewn gyrfa. Mae trefniadau newydd yn helpu i atgyfnerthu prosesau arfarnu a chynlluniau datblygu personol, ond mae angen gwneud mwy i asesu holl anghenion datblygu timau iechyd cyhoeddus lleol gyda'i gilydd.
- 84 Nid yw'r mecanweithiau ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth rhwng yr Ymddiriedolaeth a thimau iechyd cyhoeddus lleol wedi'u datblygu'n ddigonol. Nid oes unrhyw ddull safonedig o rannu gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda, a'r hyn yr oedd gwahanol gyfranwyr yn ei wneud ar raddfa leol a chenedlaethol. Yn fy ngwaith, gwelais ddiffyg trefniadau i gydgyssylltu gwaith a ddatblygir neu a gyflawnir yn lleol neu'n genedlaethol, ac i rannu gwybodaeth â'r un partneriaid cyffredin.
- 85 Yr wyf wedi nodi'r ymateb a gafwyd gan reolwyr i'm canfyddiadau, a baratowyd ar y cyd, a thrwy gydweithrediad rhwng yr Ymddiriedolaeth, y Byrddau Iechyd a Llywodraeth Cymru. Rwy'n bwriadu cyflawni gwaith pellach yn 2018 i asesu'r cynnydd a wnaed i ymdrin â'r pryderon a nodwyd uchod.

Atodiad 1

Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Dangosyn 4: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy adroddiad archwilio blynyddol diwethaf

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r Bwrdd Iechyd yn 2017.

Adroddiad	Dyddiad
Adroddiadau archwilio ariannol	
Cyflawniadau Posib wrth Archwilio Cyfrifon Terfynol	Chwefror 2017
Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol	Mai 2017
Barn ar y Datganiadau Ariannol	Mehafin 2017
Adroddiad Archwilio'r Datganiadau Ariannol Elusennol	Tachwedd 2017
Barn ar y Datganiadau Ariannol Elusennol	Rhagfyr 2017
Adroddiadau archwilio perfformiad	
Comisiynu Gwasanaethau Ambiwylans Brys	Ebrill 2017
Gwasanaethau Radioleg	Mehafin 2017
Gwasanaeth Meddyg teulu y Tu Allan i Oriau	Mehafin 2017
Diweddariad ar gynnydd apwyntiadau dilynol i gleifion dilynol	Awst 2017
Trefniadau Cydweithredol ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol	Hydref 2017
Adolygiad o Gynlluniau i Ryddhau Cleifion	Hydref 2017
Adolygiad o Ystadau	Tachwedd 2017
Asesiad Strwythuredig 2017	Rhagfyr 2017
Adroddiadau eraill	
Cynllun Archwilio 2017	Chwefror 2017

Yn ogystal â'r gwaith uchod, cynhaliodd fy nhîm adolygiad dilynol o drefniadau llywodraethu ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Adroddwyd y gwaith hwn ym mis Mehafin 2017¹⁰.

¹⁰ [Trosolwg ar Drefniadau Llywodraethu](#)

Dangosyn 5: gwaith archwilio perfformiad sy'n dal i fynd rhagddynt

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn y Bwrdd Iechyd hefyd. Dangosir y rhain yn y tabl isod, ynghyd ag amcan o ddyddiad cwblhau'r gwaith.

Adroddiad	Amcan o'r dyddiad cwblhau
Thematig a thraws-sector: Adolygiad o'r gronfa gofal integredig	Gorffennaf 2018
Adolygiad o Ofal Sylfaenol	Mehafin 2018

Atodiad 2

Y Ffi Archwilio

Yng Nghynllun Archwilio 2017, nodwyd y ffi archwilio arfaethedig o £462,953 (heb gynnwys TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol ar sail y ffaith bod rhywfaint o waith yn mynd rhagddo o hyd, yn unol â'r ffi a nodwyd yn yr amlinelliad.

Mae cost y gwaith archwilio a wnaed mewn perthynas â'r gwasanaethau a rennir, ac a ddarperir i'r Bwrdd Iechyd drwy'r Bartneriaeth Cydwasanaethau, wedi'u cynnwys yn y ffi a nodir uchod

Atodiad 3

Risgiau sylweddol wrth archwilio

Dangosyn 6: risgiau sylweddol wrth archwilio

Yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2017, nodwyd y risgiau sylweddol yn gysylltiedig ag archwilio ariannol ar gyfer 2017. Yn y tabl isod, rhestrir y risgiau hyn, a nodir sut yr ymdriniwyd â hwy yn rhan o'r archwiliad.

Risg archwilio o bwys	Ymateb archwilio arfaethedig	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
Ceir risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau ym mhob endid ar hyn o bryd. Am nad oes modd rhagweld sut y gallai rheolaethau gael eu diystyru yn y fath fodd, ystyrir ei bod yn risg sylweddol [ISA 240.31-33].	Bydd fy nhîm archwilio yn: <ul style="list-style-type: none">• profi priodoldeb cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu i ganfod unrhyw duedd; ac• yn gwerthuso'r sail resymegol ar gyfer unrhyw drafodion sylweddol nad ydynt yn rhan o fusnes arferol.	Cwblheais brofion archwilio manwl fel y cynlluniwyd, ar holl rannau perthnasol y datganiadau ariannol. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth ogwydd wrth farnu neu amcangyfrif.
Ceir risg gynhenid o gamddatganiad o bwys oherwydd twyll wrth gydnabod refeniw, felly ymdrinnir â hyn fel risg sylweddol (ISA 240.26-27).	Bydd fy nhîm archwilio yn ystyried cyflawnder yr incwm amrywiol.	Cwblheais waith archwilio fel y cynlluniwyd. Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth o gamddatganiad o bwys oherwydd twyll wth gydnabod refeniw.

Risg archwilio o bwys	Ymateb archwilio arfaethedig	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Mae'n debygol iawn na fydd y Bwrdd Iechyd yn cyflawni ei ddyletswyddau ariannol statudol.</p> <p>Dangosai'r sefyllfa ym mis 10 ddiffyg hyd hynny yn y flwyddyn o £27.9 miliwn, a rhagwelwyd diffyg diwedd blwyddyn o £30 miliwn. Yr wyf yn debygol o gyflwyno adroddiad sylweddol ar y datganiadau ariannol, sy'n esbonio'r methiant a'r amgylchiadau a arweiniodd at y methiant hwnnw.</p> <p>Mae'r pwysau ariannol presennol ar y Bwrdd Iechyd yn cynyddu'r risg y gallai barn ac amcangyfrifon y rheolwyr ddangos tuedd mewn ymdrech i fodloni unrhyw ddyletswyddau ariannol a osodir.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn cynnal profion o ddyletswyddau ariannol y Bwrdd Iechyd.</p>	<p>Adolygais drefniadau rheoli ariannol y Bwrdd Iechyd, materion sefydlog o bwys yn gysylltiedig â'r sefyllfa ariannol a rhannau o'r datganiadau ariannol a allai gynnwys cydbwysedd ariannol. Adroddodd y Bwrdd Iechyd orwariant yn erbyn y £29.8 miliwn a ddyrannwyd, a gorwariant cronus o £75.9 miliwn dros y cyfnod o dair blynedd o 2014-15 hyd 2016-17. O ganlyniad i hyn, ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol gyntaf.</p>
<p>Ceir risg sylweddol y bydd y Bwrdd Iechyd yn wynebu pwysau difrifol yng nghyswllt ei sefyllfa arian parod ar ddiwedd y flwyddyn.</p> <p>Mae'r diffyg arian parod yn debygol o gynyddu amserau talu credydwy'r ac o effeithio ar berfformiad y Bwrdd yng nghyswllt Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus (PTSC).</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn archwilio perfformiad PTSC gan gofio'r pwysau sydd ar y Bwrdd Iechyd oherwydd diffyg arian parod.</p>	<p>Cwblheais brofion archwilio manwl fel y cynlluniwyd a chasglu bod ei berfformiad wedi'i nodi'n gywir.</p>
<p>Ceir risg na fydd y Bwrdd Iechyd wedi gweithredu'r argymhellion a gyflwynais sy'n deillio o'm hadolygiadau caffael dilynol.</p>	<p>Bydd fy nhîm archwilio yn asesu'r cynnydd wrth weithredu'r argymhellion a ddeilliai o'm hadolygiadau dilynol yn sail ar gyfer fy marn ynghylch rheoleidd-dra.</p>	<p>Cwblheais brofion archwilio manwl fel y cynlluniwyd a chasglu bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd, ac ni chefais hyd i unrhyw faterion a fyddai'n effeithio ar fy marn ynghylch rheoleidd-dra.</p>

Risg archwilio o bwys	Ymateb archwilio arfaethedig	Y gwaith a wnaed a'r canlyniad
<p>Yr wyf wedi cael hyd i sawl datgeliad sydd o natur berthnasol. Mae'r rhain yn cynnwys datgelu Partïon Cysylltiedig a'r nodyn ar Daliadau.</p>	<p>Byddaf yn dylunio profion manwl er mwyn cael y sicrwydd angenrheidiol bod datgeliadau y nodir eu bod o natur berthnasol yn gyflawn, yn fanwl gywir ac yn cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.</p>	<p>Cwblheais brofion archwilio manwl fel y cynlluniwyd ar y datgeliadau y tybiwyd eu bod o natur berthnasol. Deuthum i'r casgliad bod y datgeliadau'n gyflawn, yn fanwl gywir ac yn cydymffurfio â gofynion y Llawlyfr Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.</p>

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun.: 029 2032 0660

e-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Welsh Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Phone: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

e-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales